

Gwerthwchi Gymru

Canllaw i Gyflenwyr - Blwch Postio



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Tabl Cynnwys

Beth yw'r Blwch Postio?	2
Gweithfan Ymateb y Blwch Postio	2
Rhestr o Ymatebion i'r Hysbysiad	4
Rhestr o'r Ymatebion a Anfonwyd	5
Creu Ymateb i'w Anfon i'r Blwch Postio	7
Creu tudalen ar gyfer Anfon Ymateb i'r Blwch Postio	7
Manylion Cyswllt	8
Dogfennaeth Ategol	8
Sylwadau Pellach	11
Cadw ac Anfon	11
Cadarnhad	12
Ymatebion a Anfonir i'r Blwch Postio yn Hwyr	13
Nodiadau	14



Beth yw'r Blwch Postio?

Mae'r Blwch Postio yn gyfleuster ar-lein sy'n caniatáu i awdurdodau dyfarnu dderbyn ymatebion gan gyflenwyr yn electronig mewn amgylchedd diogel.

Cyflwynir ymatebion drwy'r porth ac fe'u delir yn y Blwch Postio diogel nes bod y dyddiad cau ar gyfer ymatebion wedi mynd heibio. Yna mae aelodau enwebedig o awdurdod yn datgloi'r Blwch Postio er mwyn gweld yr ymatebion a gyflwynwyd.

Gall y Blwch Postio gael ei ddefnyddio i dderbyn Holiaduron Cyn-Gymhwyso (PQQ), ymatebion i dendrau, Dyfynbrisiau Cyflym ac unrhyw ddogfennau ategol.

Cedwir trywydd archwilio llawn o'r mynediad a geir i'r Blwch Postio a chaiff cofnod cyflawn o'r holl ymatebion a anfonwyd gan gyflenwyr ei storio.

Noder: Cyn y gallwch ddefnyddio'r blwch postio, rhaid i chi gofnodi eich diddordeb mewn hysbysiad. Yn achos Dyfynbris Cyflym neu ail gam gweithdrefn dau gam, rhaid i'r prynwr eich gwahodd i anfon ymateb.

Gweithfan Ymateb y Blwch Postio

Caiff yr holl ymatebion a anfonir i'r blwch postio eu rheoli o'ch Gweithfan Ymateb. Gallwch fynd i'r Weithfan Ymateb o Banel Rheoli'r Cyflenwr.

Panel Rheoli'r Cyflenwr

Panel Rheoli'r Cyflenwr

Croeso i Banel Rheoli'r Cyflenwr Duncan . Cliciwch ar ddolen yn un o'r adrannau priodol er mwyn mynd i'r ardal o'r wefan rydych am fynd iddi.

CHWILIO

- Hysbysiadu Diweddaraf
- Chwilio am Awdurdodau
- Chwilio am Gyfeirnod Hysbysiad
- Chwiliad Manwl
- Advanced Search

FY HYSBYSIADAU

- Rhestr Diddordeb
- Dyfynbrisiau Cyflym
- Rhybuddion am Hysbysiadu

FY YMATEBION

- Ymatebion yn y Blwch Postio



Gallwch hefyd fynd iddi drwy glicio ar y botwm "Ewch i'r Blwch Postio" pan fyddwch yn edrych ar yr hysbysiad yn eich rhestr diddordeb neu'ch rhestr Dyfynbris Cyflym.

Manylion yr Hysbysiad - Rhestr Diddordeb

Manylion yr Hysbysiad

Rhestr Diddordeb yr Aelod > Manylion yr Hysbysiad

Isod ceir manylion llawn yr hysbysiad sydd ar eich rhestr diddordeb ar hyn o bryd gan gynnwys dogfennau atodol a chwestiynau ac atebion lle y bo'n briodol. Dewiswch y tab priodol isod i weld y wybodaeth yn yr hysbysiad neu dewiswch o Gamau Gweithredu'r Hysbysiad.

Camau Gweithredu'r Hysbysiad

Ewch i'r Blwch Postio

Tynnu Diddordeb yn Ôl

Argraffu'r Hysbysiad hwn

Crynodeb Testun Llawn Gwybodaeth Bellach Gwybodaeth Gyswilt Codio

Teitl: Roofing Repairs

Cyhoeddwyd gan: Millstream Associates Ltd

Dyddiad Cyhoeddi: 25/06/2013

Dyddiad Cau ar gyfer

Gwneud Cais:

Dyddiad Cau: 18/09/2013

Amser Cau: 12:00

Math o Hysbysiad: Hysbysiad o Contract

Yn Cynnwys

Dogfennau: No

Crynodeb: Test

No logo provided
for this authority

Rhennir y Weithfan Ymateb yn ddau dab - *Rhestr o Ymatebion i'r Hysbysiad a Rhestr o'r Ymatebion a Anfonwyd.*

Mae'r Rhestr o Ymatebion i'r Hysbysiad yn dangos yr holl hysbysiau cyfredol - hysbysiau o gontractau, hysbysiau cam 2, dyfynbrisiau cyflym - sy'n gysylltiedig â'ch cofrestrriad ac y mae'r Blwch Postio wedi'i actifadu mewn perthynas â hwy. Bydd hysbysiau yn ymddangos ar y rhestr hon pan fydd y prynwr yn agor y blwch postio.



Gweithfan Ymateb - Rhestr o Ymatebion i'r Hysbysiad

Gweithfan Ymateb y Blwch Postio

Panel Rheoli Cyflenwyr > Gweithfan Ymateb y Blwch Postio

Mae Gweithfan Ymateb y Blwch Postio yn eich galluogi i reoli eich holl ymatebion i hysbysiadau y mae'r blwch postio wedi'i actifadu ar eu cyfer ac rydych wedi cofnodi diddordeb ynddynt.

Rhestr o Ymatebion i'r Hysbysiad

Gweler isod restr o hysbysiadau presennol rydych wedi cofnodi diddordeb ynddynt ac y mae'r blwch postio wedi'i actifadu mewn perthynas â hwy. Dewiswch y cam ymateb priodol i barhau.

19 daethpwyd o hyd i gofnodion. Neidio i dudalen o 2

Manylion yr Hysbysiad	Statws Ymateb	Cam Ymateb
Roofing Repairs Cyhoeddwyd Gan: Millstream Associates Ltd Dyddiad cau: 18/09/2013 12:00	Heb ei Creu	Creu
gq_test Cyhoeddwyd Gan: Millstream (Utility) Dyddiad cau: 28/06/2013 10:00	Heb ei Creu	Creu

Mae'r golofn **Manylion yr Hysbysiad** yn nodi teitl yr hysbysiad, y cyhoeddwr a'r dyddiad cau. Gallwch weld yr hysbysiad drwy glicio ar deitl yr hysbysiad.

Mae'r golofn **Statws Ymateb** yn nodi statws eich ymateb i'r hysbysiad hwn. Y tri statws ymateb yw:

Heb ei Creu – Nid ydych wedi creu ymateb ar gyfer yr hysbysiad hwn eto.

Heb ei Anfon – Rydych wedi creu ymateb ond nid ydych wedi'i anfon i'r blwch postio eto.

Wedi'i Anfon – Rydych wedi anfon ymateb i'r blwch postio. Noder: er mewn gweld yr ymateb a anfonwyd gennych, cliciwch ar y tab "Rhestr o'r Ymatebion a Anfonwyd".

Mae'r golofn **Camau Ymateb** yn nodi'r camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd. Y camau hynny yw:

Creu - Nid ydych wedi creu ymateb eto. Cliciwch ar y ddolen hon i greu ymateb newydd.

Golygu/Anfon - Rydych wedi creu ymateb ond nid ydych wedi'i anfon i'r blwch postio. Cliciwch ar y ddolen hon i olygu neu anfon eich ymateb. Noder: Unwaith y bydd y prynwr yn agor y blwch postio, bydd yr opsiwn hwn yn diflannu.

Dileu - Rydych wedi creu ymateb ond nid ydych wedi'i anfon i'r blwch postio. Cliciwch ar y ddolen hon i ddileu'r ymateb o'ch rhestr o ymatebion. Cewch neges e-bost yn cadarnhau eich bod wedi dileu ymateb.



Ymateb Eto - Rydych wedi anfon ymateb i'r blwch postio ar gyfer yr hysbysiad hwn. Cynigir yr opsiwn hwn rhag ofn y bydd angen i chi greu ac anfon ymateb ychwanegol neu ymateb newydd. Cliciwch ar y ddolen hon os hoffech wneud hynny.

Gweld - Rydych wedi creu ymateb ond nid ydych wedi'i anfon i'r blwch postio. Mae'r blwch postio wedi'i agor gan y prynwr felly ni allwch anfon yr ymateb mwyach. Cynigir yr opsiwn hwn er gwybodaeth i chi i ddangos eich bod wedi creu ymateb ond na wnaethoch ei anfon i'r blwch postio.

Gweithfan Ymateb - Rhestr o'r Ymatebion a Anfonwyd

Mae'r Rhestr hon o Ymatebion a Anfonwyd yn dangos yr holl ymatebion a anfonwyd gennych yn llwyddiannus i flwch postio. Noder: Unwaith y bydd ymateb wedi'i anfon yn llwyddiannus, ni ellir ei newid.

Gweithfan Ymateb y Blwch Postio

Panel Rheoli Cyflenwyr > Gweithfan Ymateb y Blwch Postio

Mae Gweithfan Ymateb y Blwch Postio yn eich galluogi i reoli eich holl ymatebion i hysbysiadau y mae'r blwch postio wedi'i actifadu ar eu cyfer ac rydych wedi cofnodi diddordeb ynddynt.

Rhestr o Ymatebion i'r Hysbysiad	Rhestr o'r Ymatebion a Anfonwyd		
Gweler isod restr o'r holl ymatebion a anfonwyd gennych yn llwyddiannus i'r blwch postio.			
4 daethpwyd o hyd i gofnodion. Neidio i dudalen <input type="text" value="1"/> o 1 Ewch			
Rhif adnabod	Manylion yr Hysbysiad	Wedi'i Anfon	Cam Ymateb
463	EN title Cyhoeddwyd Gan: Sell2Wales	04/06/2013 15:29	Edrych ar
462	test EN Cyhoeddwyd Gan: Sell2Wales	04/06/2013 15:15	Edrych ar

Mae'r golofn **Rhif adnabod** yn nodi rhif adnabod unigryw ar gyfer eich ymateb. Mae'r golofn **Manylion yr Hysbysiad** yn nodi teitl a chyhoeddwr yr hysbysiad. Mae'r golofn **Anfonwyd** yn nodi'r dyddiad a'r amser y cafodd yr ymateb ei anfon i'r blwch postio.

Mae'r golofn **Cam Ymateb** yn rhoi'r opsiwn i chi weld yr ymateb a anfonwyd gennych. Gallwch weld manylion yr hysbysiad a manylion eich ymateb ar dudalen newydd drwy glicio ar 'gweld'. Mae'r rhain yn cynnwys y manylion cyswllt a roddwyd gennych gyda'ch ymateb, y dogfennau y gwnaethoch eu lanlwytho i'ch ymateb ac unrhyw sylwadau pellach a nodir gennych.

Gellir lawrlwytho'r dogfennau drwy glicio ar enw'r ffeil. Ni ellir eu golygu unwaith y cânt eu hanfon.



Gweld Ymateb yn y Blwch Postio

Edrych ar Ymateb yn y Blwch Postio

[Gweithfan Ymateb](#) > Edrych ar Ymateb

Dangosir manylion eich ymateb isod.

Manylion yr Hysbysiad

Awdurdod: Sell2Wales
Teitl yr Hysbysiad: EN title
Rhif Adnabod yr Hysbysiad: JUN045850
Math o Hysbysiad: Hysbysiad o Gontract
Dyddiad cau: 05/06/2013 09:30

Manylion yr Ymateb

Rhif Adnabod yr Ymateb: 463
Statws: Submitted
Anfonwyd ar: 04/06/2013 15:29

Manylion Cyswllt

Sefydliad: Millstream
Enw cyswllt: Duncan Dallas
Adran:
Cyfeiriad: 10 Queen's Road
Tref: Aberdeen
Cod Post: AB15 4ZT
Gwlad: United Kingdom (GB)
Ffôn: 739
Ffacs:
Cyfeiriad E-bost: duncan@millstream.eu

Dogfennau

Crëwyd	Enw'r Ffeil	Disgrifiad	Maint
04/06/2013	Reporter_AuthUserList.xlsx	pkpko	169.10 KB

Sylwadau

Dim Sylwadau

[Ewch i'r weithfan](#)



Creu Ymateb i'w Anfon i'r Blwch Postio

O'r Rhestr o Ymatebion i'r Hysbysiad, dewiswch y **Cam Ymateb** perthnasol i greu ymateb. Drwy glicio ar y cam, cewch eich cyfeirio at y dudalen *Creu Ymateb i'w Anfon i'r Blwch Postio*.

Creu Ymateb i'w Anfon i'r Blwch Postio

Creu Ymateb i'w Anfon i'r Blwch Postio

Cwblhewch yr adrannau canlynol a restrir isod cyn anfon eich ymateb i'r blwch postio.

1. **Manylion Cyswilt**
2. **Dogfennaeth Ategol**
3. **Sylwadau Pellach**
4. **Cadw ac Anfon**

* Gwybodaeth ofynnol.

1. Manylion Cyswilt

Caiff eich manylion cyswilt eu copio'n awtomatig o'r wybodaeth a roddwyd gennych wrth gofrestru. Os hoffech olygu'r manylion hyn, gwnewch hynny isod.

* Sefydliad: <input type="text" value="DWD Plant Hire Ltd"/>	* Enw Cyswilt: <input type="text" value="Duncan Dallas"/>
Adran: <input type="text"/>	* Llinell Cyfeiriad 1: <input type="text" value="10 queens road"/>
Llinell Cyfeiriad 2: <input type="text"/>	* Tref: <input type="text"/>
Cod Post: <input type="text"/>	Gwlad: <input type="text" value="United Kingdom (GB)"/>
Ffôn: <input type="text" value="01224 636999"/>	Ffacs: <input type="text"/>
* Cyfeiriad E-bost: <input type="text" value="duncan@millstream.eu"/>	

2. Dogfennaeth Ategol

Rhaid i chi lwytho un ddogfen neu fwy i ategu eich ymateb. I lwytho dogfen, rhwch ddisgrifiad o'r ddogfen, dewch o hyd iddi ar eich system drwy *ddewis Pori neu Dewis* ac yna llwythwch hi drwy *ddewis Ychwanegu*. Unwaith y caiff ei llwytho'n llwyddiannus, bydd manylion y ddogfen yn ymddangos ar eich rhestr o Ddogfennau Atodedig.

Crynodeb o'r Ddogfen

Terfyn Maint Ffeiliau Unigol:	10.00 MB
Cyfanswm y Gofod sydd ar Gael ar gyfer y Ffeil:	30.00 MB
Dogfennau Atodedig:	0
Gofod Ffeil a Ddefnyddiwyd:	0.00 bytes
Gofod Ffeil sy'n Weddill:	30.00 MB

Llwytho Dogfen

* Disgrifiad:
(uchafswm o 100 o nodau, mae gennych 100 ar ôl)

* Enw'r Ffeil:

Dogfennau Atodedig

Nid oes unrhyw ddogfennau wedi'u hatodi i'r ymateb hwn

3. Sylwadau Pellach

Os yw'n berthnasol, gallwch gyflwyno rhagor o sylwadau gyda'ch cyflwyniad drwy eu hysgrifennu yn y blwch isod.

4. Cadw ac Anfon

O'r opsiynau isod *dewiswch* y botwm **Anfon** er mwyn anfon eich ymateb i'r blwch postio, neu *dewiswch* y botwm **Cadw a Gadael** er mwyn cadw eich ymateb a dychwelyd yn ddiweddarach. Fel arall, gallwch *dewis* y botwm **Canslo** er mwyn dychwelyd i'ch gweithfan ymateb yn syth heb gadw'r wybodaeth.



Gofynnir i chi gwblhau tair adran cyn eich bod naill ai'n anfon neu'n cadw eich ymateb.

1. **Manylion Cyswllt** - Caiff y meysydd manylion cyswllt eu poblogi ymlaen llaw gyda'r wybodaeth a roddwyd gennych pan wnaethoch gofrestru. Os yw'r manylion a nodir yn gywir, symudwch i adran 2. Os hoffech newid y manylion cyswllt a roddwyd gyda'r ymateb hwn, gallwch ysgrifennu ar ben y manylion.
2. **Dogfennaeth Ategol** - Rhaid i chi lanlwytho'r holl ddogfennau sydd eu hangen i'r ymateb. **Noder: Ni ddylai ffeiliau unigol fod yn fwy na 10Mb ac ni ddylai'r hyn a anfonir i'r blwch postio fod yn fwy na 30Mb gyda'i gilydd.**

Er mwyn lanlwytho pob ffeil:

- 1) Nodwch ddisgrifiad o'r ffeil yn y maes 'Disgrifiad'. Ni ddylai fod yn fwy na 100 o nodau.

Llwytho Dogfen

* Disgrifiad: PQQ
(uchafswm o 100 o nodau, mae gennych 97 ar ôl)

* Enw'r Ffeil:

- 2) Cliciwch ar "Browse" wrth ymyl y blwch Enw'r Ffeil.


Llwytho Dogfen

* Disgrifiad: PQQ
(uchafswm o 100 o nodau, mae gennych 97 ar ôl)

* Enw'r Ffeil:



- 3) Bydd hyn yn agor porwr ffeil fydd yn eich galluogi i ddewis y ffeil yr hoffech ei lanlwytho o'ch ffeiliau eich hun. Dewiswch y ffeil yr hoffech ei lanlwytho a chliciwch ar "Open"



- 4) Bydd hyn yn poblogi blwch Enw'r Ffeil gyda llwybr ffeil y ddogfen a ddewiswyd gennych. Yna dylech glicio ar "Ychwanegu".

Llwytho Dogfen

* Disgrifiad: PQQ
(uchafswm o 100 o nodau, mae gennych 97 ar ôl)

* Enw'r Ffeil: C:\Users\duncan\Desktop Browse...

Ychwanegu



Bydd neges yn ymddangos i'ch hysbysu bod y ffeil yn cael ei lanlwytho:

Llwytho Dogfen

Llwytho Dogfen... Arhoswch

* Disgrifiad: PQQ
(uchafswm o 100 o nodau, mae gennych 97 ar ôl)

* Enw'r Ffeil: C:\Users\duncan\Desktop Browse...

Ychwanegu

Unwaith y bydd y ffeil wedi'i lanlwytho'n llwyddiannus, bydd enw'r ffeil yn ymddangos o dan "Dogfennau Atodedig". Mae hyn yn golygu eich bod wedi'i hatodi'n llwyddiannus i'ch ymateb. Os byddwch yn sylweddoli eich bod wedi ychwanegu'r ffeil anghywir, gallwch ddewis ei dileu drwy dicio'r blwch wrth ymyl enw'r ffeil a chlicio ar "Dileu".

Dogfennau Atodedig

	Enw'r Ffeil	Disgrifiad	Crëwyd	Maint y Ffeil
<input type="checkbox"/>	PQQ.xls	PQQ	25/06/2013	2.58 KB

Dileu

Ailadroddwch gamau 1 i 4 ar gyfer pob dogfen rydych am ei lanlwytho.

Ni ddylai ffeiliau unigol fod yn fwy na 10Mb ac ni ddylai'r hyn a anfonir i'r blwch postio fod yn fwy na 30Mb gyda'i gilydd. Cewch wybodaeth am y gofod ffeil rydych wedi'i ddefnyddio a'r hyn sy'n weddill.



2. Dogfennaeth Ategol

Rhaid i chi lwytho un ddogfen neu fwy i ategu eich ymateb. I lwytho dogfen, rhwch ddisgrifiad o'r ddogfen, dewch o hyd iddi ar eich system drwy *ddewis Pori neu Dewis* ac yna llythwch hi drwy *ddewis Ychwanegu*. Unwaith y caiff ei llytho'n llwyddiannus, bydd manylion y ddogfen yn ymddangos ar eich rhestr o Ddogfennau Atodedig.

Crynodeb o'r Ddogfen

Terfyn Maint Ffeiliau Unigol:	10.00 MB
Cyfanswm y Gofod sydd ar Gael ar gyfer y Ffeil:	30.00 MB
Dogfennau Atodedig:	2
Gofod Ffeil a Ddefnyddiwyd:	13.47 KB
Gofod Ffeil sy'n Weddill:	29.99 MB

Llytho Dogfen

* Disgrifiad:
(uchafswm o 100 o nodau, mae gennych 100 ar ôl)

* Enw'r Ffeil:

Dogfennau Atodedig

<input type="checkbox"/>	Enw'r Ffeil	Disgrifiad	Crewyd	Maint y Ffeil
<input type="checkbox"/>	PQQ.xls	PQQ	25/06/2013	2.58 KB
<input type="checkbox"/>	Pricing Structure.xlsx	Price schedule	25/06/2013	10.89 KB

- Sylwadau Pellach** - Mae blwch testun gwag ar gael ar gyfer unrhyw sylwadau pellach y gallech fod am eu hychwanegu at eich ymateb. Maes dewisol yw hwn a gallwch ei adael yn wag. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach, ysgrifennwch hwy yn y blwch a ddarperir.

3. Sylwadau Pellach

Os yw'n berthnasol, gallwch gyflwyno rhagor o sylwadau gyda'ch cyflwyniad drwy eu hysgrifennu yn y blwch isod.

{cysylltu â Duncan am ragor o wybodaeth}

- Cadw ac Anfon** - rhaid i chi nawr naill ai anfon eich ymateb neu ei gadw. Gallwch gadw'r newidiadau a wnaed gennych i'r ymateb hwn a dychwelyd i'ch gweithfan ymateb drwy glicio ar "Cadw a Gadael". Gellir gwneud hyn unrhyw bryd yn ystod y broses o greu ymateb. Gallwch ddychwelyd i'ch gweithfan ymateb heb gadw'r newidiadau a wnaed gennych drwy glicio ar "Canslo". Os ydych yn hapus gyda'ch ymateb a'ch bod am ei anfon, cliciwch ar yr opsiwn "Anfon".



4. Cadw ac Anfon


O'r opsiynau isod dewiswch y botwm **Anfon** er mwyn anfon eich ymateb i'r blwch postio, neu dewiswch y botwm **Cadw a Gadael** er mwyn cadw eich ymateb a dychwelyd yn ddiweddarach. Fel arall, gallwch *ddewis* y botwm **Canslo** er mwyn dychwelyd i'ch gweithfan ymateb yn syth heb gadw'r wybodaeth.

Anfon

Cadw a Gadael

Canslo

Bydd neges yn ymddangos yn gofyn i chi gadarnhau eich bod am anfon yr ymateb.



Cadarnhad

Os byddwch yn dewis "lawn", caiff eich ymateb ei anfon i'r blwch postio a chewch gadarnhad o rif adnabod unigryw eich ymateb ar y sgrin. Byddwch hefyd yn derbyn neges e-bost yn cadarnhau'r ymateb.

Anfon Ymateb - Cadarnhad

Mae eich ymateb i'r hysbysiad wedi'i anfon at gyhoeddwr yr hysbysiad.

Mae'r cyhoeddwr wedi'i hysbysu am eich ymateb.

Eich cyfeirnod ar gyfer yr ymateb hwn yw 581

Edrych ar eich **gweithfan ymateb** .



Ymatebion a Anfonir i'r Blwch Postio yn Hwyr

Gall cyflenwyr anfon ymatebion i'r blwch postio ar ôl y dyddiad cau a nodwyd ar yr amod nad yw'r blwch postio wedi'i ddatgloi gan y prynwr. Caiff unrhyw ymatebion a anfonir i'r blwch postio ar ôl y dyddiad cau eu nodi fel ymatebion hwyr.

Y prynwr fydd yn penderfynu a ddylid derbyn ymateb a anfonir yn hwyr.

Os dewisir "lawn", caiff eich ymateb ei anfon i'r blwch postio yn ôl yr arfer a chewch gadarnhad o rif adnabod unigryw eich ymateb ar y sgrin. Byddwch hefyd yn derbyn neges e-bost yn cadarnhau'r ymateb. Bydd y ddau yn cynnwys y neges "**Noder: Mae eich ymateb wedi'i anfon ar ôl y dyddiad cau a nodwyd ar gyfer y blwch postio ac efallai na chaiff ei dderbyn gan y prynwr. Cysylltwch â'r prynwr am eglurhad.**"

Anfon Ymateb - Cadarnhad

Mae eich ymateb i'r hysbysiad wedi'i anfon at gyhoeddwr yr hysbysiad.
Mae'r cyhoeddwr wedi'i hysbysu am eich ymateb.

Noder: Anfonwyd eich ymateb ar ôl y dyddiad cau a nodwyd ar gyfer y blwch postio ac efallai na chaiff ei dderbyn gan y prynwr. Cysylltwch â'r prynwr am eglurhad.

Eich cyfeirnod ar gyfer yr ymateb hwn yw 602

Edrych ar eich **gweithfan ymateb**.

Cadarnhau ymateb electronig hwyr

Cyf: MAI045421
Teitl: Llogi peiriannau
Awdurdod: The Bay improvements
Dyddiad cau: 09 Mai 2013

Mae eich ymateb i'r hysbysiad uchod wedi'i anfon i'r Blwch Postio Cyflwyno Tendrau a phennwyd y rhif cyfeirnod 159 ar ei gyfer. Cofnodir manylion eich ymateb a'r dogfennau a lanlwythwyd isod.

Noder: Mae eich ymateb wedi'i anfon ar ôl y dyddiad cau a nodwyd ar gyfer y blwch postio ac efallai na chaiff ei dderbyn gan y prynwr. Cysylltwch â'r prynwr am eglurhad.

Ni chaiff y blwch postio ei ddatgloi nes i'r dyddiad cau fynd heibio. Bydd yr awdurdod dyfarnu yn cysylltu â chi maes o law gyda chanlyniadau'r gystadleuaeth.

Manylion yr Ymateb -

Cyfeirnod: 159
Derbyniwyd: 09 Mai 2013 13:23

Eich Manylion Cyswllt -

Enw: DWD plant hire
Cyfeiriad: Caerdydd
Enw cyswllt: John Caerdydd



Noder: Os byddwch yn anfon ymateb i'r blwch postio yn hwyr, fe'ch cynghorir i gysylltu â'r prynwr gan mai'r prynwr fydd yn penderfynu a ddylid derbyn neu wrthod unrhyw ymateb hwyr. Dylech roi rhif cyfeirnod eich ymateb hwyr i'r prynwr mewn unrhyw drafodaethau ar y pwynt hwn.

Nodiadau:

Dyddiad cau: Dylai ymatebion gael eu hanfon cyn y dyddiad cau. Caiff unrhyw ymateb a anfonir ar ôl y dyddiad cau a chyn i'r blwch postio gael ei agor gan y prynwr ei nodi fel ymateb hwyr a gall y prynwr dderbyn yr ymateb yn ôl ei ddisgresiwn.

Ni ddylai cyflenwyr aros tan y funud olaf cyn creu ac anfon ymateb rhag ofn y bydd problemau munud olaf.

Diogelwch y Blwch Postio: Ni all unrhyw un, gan gynnwys Millstream, weld yr ymatebion a anfonwyd i'r blwch postio nes bod y dyddiad cau wedi mynd heibio. Unwaith y bydd ymateb wedi'i anfon, ni ellir ei adalw na'i olygu. Os bydd cyflenwr yn sylweddoli ei fod wedi gwneud camgymeriad yn ei ymateb, yr unig opsiwn yw anfon ymateb arall sy'n disodli'r un gwreiddiol.

Telerau ac Amodau/Cais am Ddogfennau Tendr: Efallai y bydd prynwyr am adolygu'r telerau ac amodau a nodir yn eu cais am ddogfennaeth tendr os byddant yn derbyn ymatebion hwyr neu'n cael problemau technegol.

Gwybodaeth: Bydd pob hysbysiad sy'n defnyddio'r Blwch Postio Cyflwyno Tendrau i dderbyn ymatebion yn nodi'r datganiad isod yn awtomatig:

Mae'r awdurdod dyfarnu wedi nodi y bydd yn derbyn ymatebion electronig i'r hysbysiad hwn drwy'r cyfleuster 'Blwch Postio Cyflwyno Tendrau'. Os mai dim ond ymatebion electronig drwy'r Blwch Postio y mae prynwyr yn eu derbyn, dylai hyn gael ei nodi'n glir yn yr hysbysiad tendr ac yn y dogfennau.

Firysau: Bydd gwiriwr firysau'r gweinydd yn sganio pob dogfen a gaiff ei lanlwytho ac, os deuir o hyd i firws, caiff y ffeil ei dileu a chaiff y cyflenwr ei hysbysu. Ar yr amod nad yw'r dyddiad cau wedi mynd heibio, caiff y cyflenwr gyfle i ddarparu ffeil lân yn lle'r ffeil honno.

Dogfennau Llygredig: Ni ellir canfod llygredd mewn dogfennau. Dylai prynwyr nodi eu polisi ar hyn yn y ddogfen dendr (e.e. caiff ei gwrthod).

Mathau o Ddogfennau: Byddai'n ddefnyddiol pe gallai prynwyr nodi yn yr hysbysiad neu'r dogfennau tendr y mathau o ffeiliau/dogfennau y gall eich sefydliad eu derbyn a'u darllen ar-lein.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Maint dogfennau ac uchafswm nifer y dogfennau a ganiateir: Pennir uchafswm maint o 10Mb ar gyfer unrhyw ddogfen a anfonir drwy'r Blwch Postio. Os bydd cyflenwyr yn ceisio lanlwytho dogfen sy'n fwy na 10Mb, caiff y ddogfen honno ei gwrthod ac ni chaiff ei anfon. Ni ddylai ymatebion a anfonir i'r Blwch Postio fod yn fwy na 30Mb gyda'i gilydd.

Anfon ymateb sawl gwaith: Os yw cyflenwr wedi anfon ymateb eisoes, ni ellir ei adalw. Fodd bynnag, gall cyflenwr anfon ail dendr os dymuna, gan nodi pa ymateb y dylid cyfeirio ato.

Desg Gymorth: Am ragor o gyngor ar ddefnyddio'r cyfleuster ar-lein ar gyfer anfon ymatebion, cysylltwch â'r tîm cymorth gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir ar hafan y wefan.